Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg |
This document is also available in Engllsh

# Rhaglen Brentisiaethau yng Nghymru: Ymgynghoriad

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | 15 Medi 2025 |
| **Cyfeirnod:** | Medr/2025/17 |

| | |
|---|---|
| **At:** | Penaethiaid darparwyr addysg drydyddol yng Nghymru<br>Darparwyr prentisiaethau cyfredol yng Nghymru / Deiliaid contract prentisiaeth wedi'u comisiynu<br>Cyrff cynrychioli cyflogwyr<br>Cyrff cynrychioli dysgwyr<br>Cynrychiolwyr addysg awdurdodau lleol |
| **Ymateb erbyn:** | **31 Hydref 2025** |
| **Am ragor o wybodaeth:** | prentisiaethau@medr.cymru |


**Crynodeb**

Mae'r ymgynghoriad hwn yn gofyn i ddeiliaid contractau presennol a darpar ddeiliaid contractau, cyflogwyr a dysgwyr am gymorth i lunio dyluniad rhaglen brentisiaethau newydd Cymru, sydd i fod i ddechrau ar 1 Awst 2027.



Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg neu yn Saesneg
We welcome correspondence in Welsh and in English
Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi
Corresponding in Welsh will not lead to delays.

Noddir gan Lywodraeth Cymru
Sponsored by Welsh Government

## Crynodeb

Mae cynllun strategol Medr yn nodi nod i 'greu system drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid'. Rydym wedi ymrwymo i ddylunio darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol i ymateb i flaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru ac i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi.

Mae prentisiaethau yn allweddol ar gyfer hybu cynhyrchiant a helpu i feithrin gweithlu medrus ac amrywiol.

Bydd y rhaglen brentisiaethau newydd yn dechrau ar 1 Awst 2027.

Mae'r ymgynghoriad hwn yn ceisio barn rhanddeiliaid, gan gynnwys darparwyr hyfforddiant ac addysg drydyddol, cynrychiolwyr diwydiant, cyflogwyr, dysgwyr, rhieni ac awdurdodau lleol i helpu i lunio'r rhaglen newydd.

Rydym eisoes wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid i lywio'r egwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd, gan gynnwys sut y caiff prentisiaethau eu datblygu, eu cyflwyno, a'u rheoli.

Byddem yn croesawu ymatebion i'r ymgynghoriad gan unigolion sydd â phrofiad o brentisiaethau. Mae clywed gan ddysgwyr yn allweddol i sicrhau bod gwersi'n cael eu dysgu o'r rhaglen bresennol a bod syniadau'n cael eu cyflwyno i'r rhaglen newydd.

Rydym nawr yn ceisio barn ar y canlynol:

- yr egwyddorion lefel uchel hyn i arwain y rhaglen brentisiaethau newydd
- diffiniad o brentisiaeth
- taith dysgwr sy'n brentis
- ymgysylltiad cyflogwyr
- cyflawni hyblyg
- fframweithiau sector prentisiaethau
- ymatebolrwydd economaidd y rhaglen
- canlyniadau prentisiaid
- cryfhau cyfleoedd yn y Gymraeg
- prentisiaethau cynhwysol

Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgynghori:

- Digwyddiad ar-lein ar 24 Medi 2025: 10yb–12yp
- Digwyddiad wyneb yn wyneb ar 1 Hydref 2025: 9.30yb–1yp
  Cyfeiriad: Venue Cymru, Y Promenâd, Cilgant Penrhyn, Llandudno LL30 1BB
- Digwyddiad ar-lein ar 8 Hydref 2025: 10yb–12yp
- Digwyddiad wyneb yn wyneb ar 15 Hydref 2025: 9.30yb–1yp
  Cyfeiriad: Coleg Caerdydd a'r Fro, Campws Canol y Ddinas, Heol Dumballs, Caerdydd CF10 5FE

I gael dweud eich dweud, cwblhewch y ffurflen ymateb yn **Atodiad A** a'i hanfon at prentisiaethau@medr.cymru erbyn **31 Hydref 2025**.

## Cyflwyniad

1. Mae Medr wedi ymrwymo i sicrhau bod y rhaglen brentisiaethau yn parhau i fodloni blaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru ac anghenion esblygol dysgwyr, cyflogwyr a'r economi ehangach, fel rhan o system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig. Wrth i ni ystyried dylunio rhaglen brentisiaethau newydd i Gymru, rydym yn ceisio barn gan randdeiliaid allweddol, darparwyr hyfforddiant, cynrychiolwyr y diwydiant, cyflogwyr, dysgwyr a rhieni i helpu i lunio cynnig sy'n canolbwyntio ar y dyfodol, sy'n gynhwysol ac yn ymatebol.

2. Ym mis Chwefror 2024, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei datganiad polisi ar brentisiaethau, a oedd yn cynnwys tri amcan allweddol ar gyfer prentisiaethau yn y dyfodol:

    - Amcan 1: adeiladu cydnerthedd a chynaliadwyedd – addasu i'r amgylchedd economaidd newidiol.
    - Amcan 2: mynd i'r afael â phrinder sgiliau a hyrwyddo twf – ailsgilio, uwchsgilio a chynnydd fertigol.
    - Amcan 3: prentisiaethau cynhwysol sy'n gwella cyfleoedd bywyd pobl.

3. Mae Medr yn gyfrifol am bolisi gweithredol a chyflenwi prentisiaethau ledled Cymru. Mae hyn yn cynnwys trawsnewid datganiad polisi Llywodraeth Cymru ar brentisiaethau yn gamau gweithredu y gellir eu cyflawni i ddiwallu anghenion dysgwyr ac anghenion yr economi. Un ymrwymiad allweddol yw dylunio, datblygu a chyflwyno darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol, y disgwylir iddo ddechrau ym mis Awst 2027. Mae'r rhaglen bresennol i fod i ddod i ben ar 31 Gorffennaf 2027.

4. Rydym am i'r rhaglen newydd fod yn fwy ymatebol a hyblyg i fynd i'r afael â blaenoriaethau sgiliau er mwyn diwallu ein heconomi sy'n newid, blaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru, ac anghenion dysgwyr.

5. Bydd eich mewnwelediadau'n chwarae rhan hanfodol wrth lywio datblygiad rhaglen sy'n cynorthwyo dysgu o ansawdd uchel, cyflogaeth ystyrlon, a thwf economaidd hirdymor ledled Cymru.

6. Rydym yn eich gwahodd i fyfyrio ar eich profiadau, rhannu eich syniadau, a chyfrannu at gyd-ddylunio system brentisiaeth sy'n gweithio i bawb.

## Pam rydyn ni'n ymgynghori?

7. Mae prentisiaethau yn allweddol ar gyfer codi lefelau sgiliau, hybu cynhyrchiant, a helpu i feithrin gweithlu medrus ac amrywiol sy'n addas at y diben. Rydym yn gweithio i nodi sut y gallwn ymateb i'r gofynion cyfnewidiol hyn, fel rhan o'r system sgiliau ehangach, mewn ffordd fwy ystwyth ac ymatebol er mwyn sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu cyflenwi i ddiwallu anghenion cyflogwyr a dysgwyr, ac anghenion economaidd, drwy'r rhaglen brentisiaethau newydd o fis Awst 2027.

8. Rydym wedi ymgysylltu â darparwyr dysgu, cyrff diwydiant, cyflogwyr a rhanddeiliaid eraill i ddeall cryfderau a gwendidau'r rhaglen bresennol. Rydym wedi

defnyddio'r adborth hwn i lywio datblygiad egwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd. Archwiliwyd pedwar maes allweddol ymgysylltu:

- Sefydlu prentisiaethau, gan gynnwys hyblygrwydd o ran cyflwyno, taith y dysgwr, ymgysylltiad cyflogwyr a sut y mae fframweithiau'n cael eu datblygu a'u cyflenwi i ddiwallu anghenion cyflogwyr / yr economi
- Cyflenwi prentisiaethau, gan gynnwys yr hyn sy'n gweithio'n dda, y rhwystrau a'r llwyddiannau
- Canlyniadau o safbwynt cyflogwr, dysgwr a darparwr
- Rheoli prentisiaeth

9. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gyfle i gryfhau ymhellach ein dealltwriaeth o'r hyn sy'n gweithio'n dda a pha ystyriaethau pellach y mae eu hangen i alluogi'r rhaglen brentisiaethau newydd i ddiwallu anghenion sgiliau'r economi a dysgwyr.

## Canlyniad yr ymgynghoriad

10. Bydd yr ymgynghoriad yn llywio dyluniad manwl y rhaglen brentisiaethau newydd, sydd i fod i ddechrau ar 1 Awst 2027.

## Digwyddiadau ymgynghori

11. Rydym yn cynnal pedwar digwyddiad ymgynghori i helpu i lywio'r rhaglen yn y dyfodol.

- Digwyddiad ar-lein ar 24 Medi 2025: 10yb–12yp
- Digwyddiad wyneb yn wyneb ar 1 Hydref 2025: 9.30yb–1yp
  Cyfeiriad: Venue Cymru, Y Promenâd, Cilgant Penrhyn, Llandudno LL30 1BB
- Digwyddiad ar-lein ar 8 Hydref 2025: 10yb–12yp
- Digwyddiad wyneb yn wyneb ar 15 Hydref 2025: 9.30yb–1yp
  Cyfeiriad: Coleg Caerdydd a'r Fro, Campws Canol y Ddinas, Heol Dumballs, Caerdydd, CF10 5FE

### Ymatebion

12. Cwblhewch yr holiadur yn **Atodiad A** ac anfonwch hi i prentisiaethau@medr.cymru erbyn **31 Hydref 2025**. Efallai na fydd ymatebion a fydd yn cyrraedd ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

## Beth yw'r rhaglen brentisiaethau bresennol?

13. Swydd â thâl gyda hyfforddiant yw prentisiaeth. Mae prentisiaid yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ennill cyflog. Cwblheir hyn drwy fframwaith prentisiaeth, sy'n nodi'r rhaglen ddysgu a chymwysterau o lefel 2 hyd at lefel gradd:

| Enw | Lefel | Lefel addysgol gyfwerth |
|---|---|---|
| Prentisiaeth sylfaen | lefel 2 | Hyd at 5 pas TGAU da |
| Prentisiaeth | lefel 3 | 2 bas Safon Uwch |
| Prentisiaeth uwch | lefel 4 a 5 | Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC), Diploma Cenedlaethol Uwch (HND) neu radd sylfaen ac uwch. |
| Prentisiaeth gradd | lefel 6 | Gradd Baglor |

14. Bydd prentis yn:

- gweithio ochr yn ochr â staff profiadol
- ennill sgiliau swydd-benodol
- ennill cymhwyster
- ennill cyflog
- cael amser i astudio

15. Bydd prentis yn dilyn Fframwaith Prentisiaeth Cymru. Ar hyn o bryd mae fframweithiau ar gael mewn 23 sector gyda nifer o lwybrau ar gael ym mhob fframwaith. Opsiynau yw llwybrau, neu ffyrdd sy'n seiliedig ar alwedigaethau neu rolau swyddi penodol o fewn y sector diwydiant ac sy'n rhoi opsiynau i brentis i gynorthwyo ei ddewisiadau gyrfa.

16. Mae pob fframwaith yn amlinellu'r llwybrau sydd ar gael, ac yn cynnwys:

- Gofynion mynediad
- Naill ai:
  - cymhwyster cymhwysedd galwedigaethol (sgìl) ynghyd â chymhwyster gwybodaeth dechnegol, neu
  - cymhwyster cyfun (integredig) sy'n cynnwys cymwyseddau a gwybodaeth dechnegol
- Cymhwyster Sgiliau Hanfodol Cymru. Mae hyn yn cynnwys cymhwyso sgiliau rhif a chyfathrebu, a llythrennedd digidol, os yw'n berthnasol i'r sector neu rolau swyddi.
- Cymwysterau neu ofynion eraill, fel y nodir ar gyfer y galwedigaeth benodol
- Hyfforddiant yn y gwaith ac oddi ar y gwaith

- Cymorth dysgu ychwanegol (yn ôl yr angen)

17. Mae prentisiaethau'n cymryd rhwng blwyddyn a phum mlynedd i'w cwblhau, yn dibynnu ar y llwybr a'r lefel.

18. Rhaid i bob fframwaith prentisiaeth fodloni'r gofynion statudol a nodir ym Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW).

19. Cyflwynir y fframweithiau trwy ddau lwybr:

    - Darperir prentisiaethau lefelau 2 i 5 gan 10 darparwr dysgu dan gontract (chwe choleg addysg bellach a phedwar darparwr hyfforddiant annibynnol) ledled Cymru. Mae pob prif gontractwr yn gweithio gyda darparwyr eraill i ddarparu amrywiaeth o brentisiaethau. Penodwyd y darparwyr drwy ymarfer caffael cyhoeddus yn 2021, ac mae manyleb contract y rhaglen wedi'i chyhoeddi ar wefan Medr.
    - Mae prentisiaethau gradd ar lefel 6 yn cael eu darparu gan wyth prifysgol yng Nghymru (yn cynnwys y Brifysgol Agored), gan weithio'n aml mewn partneriaeth â cholegau addysg bellach. Mae prentisiaethau gradd ar gael mewn peirianneg ddigidol, peirianneg, gweithgynhyrchu uwch ac adeiladu.

## Rhesymeg dros newid

20. Gweledigaeth Medr yw gweithio mewn cydweithrediad agos â'n partneriaid i alluogi system addysg ac ymchwil drydyddol sy'n canolbwyntio ar anghenion dysgwyr, cymdeithas a'r economi, gyda rhagoriaeth, cydraddoldeb ac ymgysylltiad wrth wraidd ei waith.

21. Ym mis Mawrth 2025, cyhoeddwyd ein Cynllun Strategol, sy'n nodi ein huchelgeisiau ar gyfer sector cydweithredol sy'n darparu dysgu ac ymchwil o ansawdd uchel, gan ddiwallu anghenion yr economi a chymdeithas, gwella cyfraddau cyfranogiad mewn addysg drydyddol, a chreu llwybrau mwy hyblyg i ddysgwyr. Mae nod strategol 2 y cynllun yn nodi ein huchelgais i greu 'system addysg drydyddol hyblyg a chydgysylltiedig lle gall pawb gaffael y sgiliau a'r wybodaeth y mae eu hangen arnynt ar gyfer economi a chymdeithas sy'n newid'. Rydym wedi ymrwymo i ddylunio darpariaeth prentisiaethau yn y dyfodol i ymateb i flaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru ac i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi.

22. Mae'r gwaith o reoli a chyflwyno'r rhaglen brentisiaethau yn symud o Lywodraeth Cymru i Medr, ac mae'r contractau prentisiaeth presennol yn dod i ben ym mis Gorffennaf 2027, ac felly mae'n gyfle gwych i adolygu, dadansoddi a chryfhau'r rhaglen brentisiaethau i ddiwallu anghenion dysgwyr, cyflogwyr a'r economi yn well.

23. Mae byd gwaith yn newid yn barhaus, ac mae arnom angen rhaglen brentisiaethau sy'n hyblyg ac yn ymatebol i ddiwallu'r anghenion newidiol hyn yn effeithiol.

24. Rydym wedi ymgysylltu â darparwyr dysgu, cyrff diwydiant, cyflogwyr a rhanddeiliaid i lywio dyluniad lefel uchel y rhaglen brentisiaethau newydd. Roedd canlyniad yr ymgysylltiad cychwynnol yn gadarnhaol iawn, gyda mewnwelediadau

ac awgrymiadau gwerthfawr i lywio'r egwyddorion allweddol ar gyfer llunio'r rhaglen newydd, yn seiliedig ar ddysgu o gyflenwi'r dull presennol dros nifer o flynyddoedd. Roedd yn amlwg bod arferion da yn bodoli eisoes ar draws pob sector cyflogaeth, gan weithio gyda darparwyr a diwydiant i gyflwyno'r rhaglen brentisiaethau. Ystyriwyd bod y rhaglen ar gyfer pob oed yn llwyddiannus iawn gan yr holl randdeiliaid, a'i bod yn rhywbeth y dylid ei barhau yn y rhaglen yn y dyfodol.

25. Fodd bynnag, mae adborth hefyd wedi awgrymu bod mwy y gallwn ei wneud o hyd i gryfhau'r rhaglen. Un o'r elfennau allweddol oedd darpariaeth fwy hyblyg, gan gynnwys hyd prentisiaethau, cymwysterau a gofynion fframwaith eraill, y model ariannu fframwaith, gofynion sgiliau hanfodol, a'r gallu i gydnabod dysgu blaenorol. Roedd y gallu i ymateb i'r economi a'r anghenion newidiol yn y diwydiant hefyd yn allweddol i gryfhau cynllunio ymlaen llaw ar anghenion a'r galw am sgiliau, gan gynnwys drwy gadw fframweithiau'n gyfredol i adlewyrchu anghenion newidiol y diwydiant.

26. Mae rhai agweddau ar hyblygrwydd, fel y model ariannu, yn gysylltiedig â dyluniad y rhaglen brentisiaethau, a byddwn yn gweithio i nodi sut y gallwn wneud y rhain yn fwy ystwyth ac ymatebol o fewn y rhaglen newydd. Mae elfennau eraill, fel gofynion sgiliau hanfodol, wedi'u cysylltu â Manyleb Safonau Prentisiaethau Cymru (SASW), y fframwaith cyfreithiol sy'n diffinio prentisiaeth yng Nghymru. Mae Medr yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, a fydd yn gwneud y trefniad angenrheidiol, i ddod â Rhan 4 o Ddeddf Addysg Drydyddol ac Ymchwil (Cymru) i rym, a bydd hyn yn cynnwys Llywodraeth Cymru yn ymgynghori ar fanyleb wedi'i diweddaru, a fydd yn gyfle i ystyried ble y gallai fod angen newidiadau. Y bwriad yw y bydd cyflwyno'r rhaglen brentisiaethau newydd yn cyd-fynd â chychwyn y ddeddfwriaeth newydd.

27. Mae'r trefniadau comisiynu presennol drwy gontractau sy'n cael eu caffael yn gyhoeddus hefyd wedi bod yn ffactor yn ein diffyg gallu i ymateb yn hyblyg i ddiwallu anghenion yr economi a dysgwyr, neu i ymateb i flaenoriaethau sectorau. Mae hyn oherwydd y gallu cyfyngedig i wneud newidiadau i'r contract neu'r ddarpariaeth yn ystod cyfnod y contract. Yn dilyn adolygiad trylwyr, gyda chefnogaeth cyngor cyfreithiol allanol, rydym wedi penderfynu symud i fodel comisiynu a ariennir gan grant ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd o fis Awst 2027. Bydd hyn yn cyd-fynd â threfniadau ariannu Medr ar gyfer yr holl ddarpariaeth drydyddol arall, gan gefnogi ein nod o gael sector mwy cydgysylltiedig a chydlynol. Cyhoeddir rhagor o wybodaeth am fanylion sut y bydd y model cyllid grant yn gweithio maes o law.

## Beth mae'r rhaglen brentisiaethau newydd yn ceisio ei gyflawni?

28. Rydym am i'r rhaglen newydd fod yn fwy ymatebol a hyblyg i fynd i'r afael â blaenoriaethau sgiliau y mae eu hangen yn ein heconomi sy'n newid. Rydym yn cynnig y canlynol fel egwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen newydd:

- Bod yn rhaglen pob oed
- Darparu prentisiaethau o lefel 2 i lefel 6
- Ymateb i alw am sgiliau sy'n newid ar draws yr economi ac anghenion sgiliau rhanbarthol
- Ymateb i flaenoriaethau sgiliau Llywodraeth Cymru, gan gynnwys ymateb i dechnolegau sy'n newid, a sgiliau gwyrdd

- Diwallu anghenion dysgwyr a chynorthwyo eu dilyniant drwy'r system addysg drydyddol ac i mewn i'w gyrfa ddewisol a thrwy gydol yr yrfa honno
- Bod yn hyblyg ac yn ymatebol i sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r economi
- Cyflenwi prentisiaethau cynhwysol sy'n hygyrch i ddysgwyr o amrywiaeth o gefndiroedd, a chyda nodweddion gwarchodedig
- Cynyddu cyfleoedd prentisiaeth sydd ar gael yn y Gymraeg
- Cynnig darpariaeth o ansawdd uchel sy'n cryfhau canlyniadau a chyrhaeddiad dysgwyr

29. Mae diffiniad prentisiaeth wedi'i ddatblygu trwy ein hymgysylltiad diweddar â rhanddeiliaid, ac fe'i hamlinellir isod:

    'Swydd â thâl gyda hyfforddiant yw prentisiaeth. Mae prentisiaid yn ennill profiad, yn dysgu sgiliau newydd ac yn ennill cymhwyster a gydnabyddir yn genedlaethol wrth ennill cyflog. Diffinnir hyn drwy fframwaith prentisiaeth.'

<u>Cwestiynau</u>

1. A ydyw'r egwyddorion lefel uchel hyn yn gywir ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd yng Nghymru?
2. Sut y gallwn ni wneud y rhaglen brentisiaethau yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ymateb i newidiadau economaidd, gofynion y farchnad lafur, gwahaniaethau rhanbarthol a thueddiadau gweithlu'r dyfodol yng Nghymru?
3. Pa arloesedd neu newidiadau yr hoffech chi eu gweld yn y rhaglen brentisiaethau arfaethedig i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn effeithiol i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yng Nghymru?
4. Sut olwg fyddai ar lwyddiant ymhen pum mlynedd?
5. A ydyw'r diffiniad o brentisiaeth yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae angen i'r rhaglen newydd ei gyflawni?

## Fframweithiau'r sector prentisiaethau

30. Mae Medr, fel yr awdurdod dyroddi dynodedig, yn gyfrifol am ddatblygu a chyhoeddi fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru. Rhaid i bob fframwaith a gyhoeddir ddiwallu anghenion economi Cymru, fel y dangosir gan wybodaeth gref am y farchnad lafur a chymorth cyflogwyr. Ar hyn o bryd mae 23 o fframweithiau prentisiaeth ar draws pob sector.

31. Rydym yn gweithio i nodi sut y gallwn ymateb i'r gofynion cyfnewidiol mewn ffordd fwy ystwyth ac ymatebol er mwyn sicrhau bod y cymwysterau a'r sgiliau cywir yn cael eu darparu i ddiwallu anghenion cyflogwyr, dysgwyr a'r economi. Rhwng 2025 a 2027, bydd yr holl fframweithiau prentisiaeth presennol yn cael eu hadolygu i sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn ystyried y galw tebygol am sgiliau yn y dyfodol. Mae sgiliau gwyrdd a sgiliau digidol yn themâu allweddol ar draws yr holl adolygiadau. Cynhelir pob adolygiad gan ystyried dilyniant prentisiaid (o lefel 2 i fyny, i brentisiaethau gradd lle bo'n briodol) o'r cychwyn cyntaf. Bydd hyn yn rhoi

cyfleoedd i ddysgwyr symud ymlaen yn fwy effeithiol ac yn ddi-dor trwy'r lefelau heb ddyblygu nac ailadrodd y dysgu.

32. Fel rhan o'r rhaglen adolygu hon, hoffem gryfhau a symleiddio ansawdd fframweithiau'r sector prentisiaethau drwy weithredu strwythur newydd, symlach, gan fod tystiolaeth wedi awgrymu y gall y cynnig presennol fod yn ddryslyd i ddysgwyr a chyflogwyr ei ddeall a'i lywio.

33. Y fframweithiau sector newydd arfaethedig yw:

- Gofal
- Iechyd a Gwyddoniaeth
- Peirianneg a Gweithgynhyrchu
- Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau
- Gwasanaethau Busnes a Rheoli
- Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelu
- Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar
- Arlwyo a Lletygarwch
- Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig
- Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu
- Digidol
- Gwallt a Harddwch
- Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Gofalu am Anifeiliaid
- Trafnidiaeth, Moduron a Logisteg
- Ynni
- Bwyd a Diod
- Gwasanaethau Eiddo
- Chwaraeon a Hamdden

34. Mae **Atodiad B** yn nodi'r fframweithiau arfaethedig mewn 18 sector galwedigaethol a'r 144 llwybr galwedigaethol presennol ynddynt. Mae'r llwybrau'n agored i newid drwy'r broses adolygu barhaus (fel yr amlinellwyd uchod)

Cwestiynau:

6. A ydyw'r sectorau hyn yn addas i ddiwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr?
7. A oes unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech chi'n disgwyl eu gweld nad ydynt wedi'u cynnwys?
8. Sut ddylai fframweithiau sector esblygu i adlewyrchu diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, anghenion sgiliau, a blaenoriaethau rhanbarthol yng Nghymru, beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyn?

**Dysgwyr**

35. Mae Medr yn sicrhau bod dysgwyr yn ennill y sgiliau, yr wybodaeth a'r cymwysterau cywir i symud ymlaen trwy'r system addysg drydyddol, mynd i mewn i fyd gwaith a symud ymlaen yn eu gyrfa ddewisol, ac mae hyn wrth wraidd popeth a wnawn. Rydym yn deall bod angen i'r rhaglen brentisiaethau fod yn hyblyg ac yn ymatebol i

ddiwallu anghenion amrywiol dysgwyr. Gall dysgwyr ymuno â'r rhaglen brentisiaethau ar wahanol gamau yn eu bywyd neu daith yrfa, ac mae angen i'r rhaglen brentisiaethau allu cynorthwyo dysgwyr fel unigolion i ennill y sgiliau a'r cymwysterau y mae eu hangen ar gyfer gyrfa lwyddiannus. Mae mwy nag 20,000 o ddysgwyr yn dechrau fframwaith prentisiaeth bob blwyddyn.

36. Mae angen sicrhau bod gan ddysgwyr yr wybodaeth gywir i wneud dewis gwybodus ar y sgiliau y mae arnynt eu hangen i symud ymlaen yn eu galwedigaethau dewisol a sut y gallant eu datblygu. Nodwyd fod pwysigrwydd cyngor gyrfaoedd o ansawdd uchel, annibynnol a diduedd i ddysgwyr, a chydweithio â chyflogwyr ynghylch y gwahanol opsiynau galwedigaethol sydd ar gael, yn elfen allweddol drwy gydol ein hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Mae'n bwysig bod dysgwyr yn cael y cymorth a'r mentora cywir yn y gwaith, gan gynnwys sgiliau cyflogadwyedd ac entrepreneuriaeth, yn ogystal â sgiliau a chymwysterau penodol i alwedigaethau. Mae angen i ni sicrhau bod y cyfleoedd ar gyfer dilyniant ar draws darpariaeth addysg drydyddol yn glir ac yn dathlu llwyddiannau dysgwyr.

<u>Cwestiynau</u>

9. Pa agweddau ar daith y dysgwr ar hyn o bryd mewn prentisiaethau sy'n gweithio'n dda, a ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i wella er mwyn cynorthwyo dysgwyr yn well drwy gydol eu dysgu?
10. Pa ganlyniadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid (e.e. cyflogaeth gynaliadwy, cymwysterau), a sut y gellir mesur a chynorthwyo'r rhain yn effeithiol?
11. Sut y gallwn ni ddenu mwy o brentisiaid, a/neu garfan ehangach o brentisiaid i'r rhaglen, waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn?

**Cyflogwyr / diwydiant**

37. Mae gweithlu medrus yn allweddol i hybu cynhyrchiant a meithrin busnesau yng Nghymru mewn economi sy'n newid yn gyflym. Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu cysylltiadau cryf â diwydiant, partneriaethau sgiliau rhanbarthol, pwyllgorau cydweithredol corfforaethol a chyflogwyr er mwyn deall y sgiliau y mae eu hangen ar gyfer gweithlu cynhyrchiol.

38. Ar hyn o bryd mae'r darparwyr prentisiaethau sydd wedi'u contractio, eu his-gontractwyr, a phrifysgolion yn gweithio'n uniongyrchol gyda chyflogwyr i greu cyfleoedd prentisiaeth a recriwtio prentisiaid ar draws pob sector yng Nghymru. Mae'n bwysig bod Medr a darparwyr dysgu yn cefnogi cyflogwyr yn llawn trwy gydol eu taith o weithio gyda phrentisiaid, boed hyn wrth recriwtio neu drwy daith ddysgu'r prentis. Mae angen cryf hefyd i ehangu ystod a nifer y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig ar draws busnesau bach a chanolig.

39. Bydd yr ymgynghoriad hwn yn ein helpu i ddeall y rhwystrau y mae cyflogwyr yn eu hwynebu, yn enwedig busnesau bach a chanolig, i gyflogi prentisiaid, a sut i gynorthwyo darparwyr i gynyddu sylfaen y cyflogwyr yn y dyfodol.

Cwestiynau

12. Sut y gallwn ni ehangu nifer ac ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig busnesau bach a chanolig?
13. Sut y gall cyflogwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen brentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith?
14. Sut y gellir cefnogi busnesau'n well wrth weithio gyda phrentis? Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i gyflogwyr, cyn cyflogi prentis ac yn ystod taith ddysgu'r prentis?
15. Sut y gallwn ni sicrhau rhaglen sy'n cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le?

**Darparwyr dysgu**

40. Mae'r galw esblygol am sgiliau, boed ar gyfer y rhai sy'n ymuno â'r gweithlu neu'n weithwyr presennol sy'n uwchsgilio, wedi arwain at yr angen i ddarparwyr ddod yn fwy ymatebol, gan sicrhau bod cymwysterau a dysgu'n cael eu cyflwyno'n effeithiol ac mewn modd amserol. Mae hyn wedi creu llawer o heriau i ddarparwyr dysgu eu goresgyn, gan gynnwys rheoli cyllidebau o amgylch gofynion ariannu, ymateb i dwf deallusrwydd artiffisial, cynyddu cyfleoedd i brentisiaid ddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, bod yn ymwybodol o dechnolegau newydd, ansicrwydd economaidd, gallu ymateb i brosiectau seilwaith newydd neu fuddsoddiad arall ledled Cymru, goresgyn rhwystrau y gall dysgwyr eu hwynebu, a'r diffyg hyblygrwydd yn y ddarpariaeth ddysgu bresennol i ddiwallu anghenion dysgwyr.

41. Hoffem ddeall yr heriau hyn ymhellach, gan gynnwys yr hyn sy'n gweithio'n dda, y rhwystrau a'r llwyddiannau.

Cwestiynau

16. Sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglenni prentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith?
17. Beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei gryfhau o safbwynt darparwr?

## Y Gymraeg

42. Mae ein cynllun strategol yn ymrwymo i annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg mewn addysg drydyddol, gan gynyddu'r galw am ddysgu ac asesu trwy gyfrwng y Gymraeg a chyfranogiad ynddynt.

43. Mae angen cynyddu cyfleoedd prentisiaeth a'r nifer sy'n manteisio ar y prentisiaethau'n ddwyieithog a thrwy gyfrwng y Gymraeg yng nghyd-destun eu sectorau, o safbwynt dysgwr a chyflogwr, ond hefyd i gefnogi'r broses o gyflwyno'r fframweithiau trwy gyfrwng y Gymraeg. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol i helpu i lywio datblygiad y rhaglen newydd.

44. Hoffem ddeall ymhellach yr heriau sy'n gysylltiedig â chynnig cyfleoedd prentisiaeth yn y Gymraeg, a cheisio syniadau ar sut y gallwn hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach o fewn y rhaglen brentisiaethau.

<u>Cwestiynau</u>

18. A oes gan ein hegwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar y canlynol:
    (a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a
    (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

    Yn benodol:
    - Sut y gallwn ni annog mwy o bobl i fanteisio ar gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn ddwyieithog ledled Cymru?
    - Sut y gellir ymgorffori sgiliau'r Gymraeg, yn enwedig Cymraeg ar gyfer y gweithle, yn fwy ystyrlon ac yn ehangach mewn rhaglenni prentisiaeth i gefnogi dwyieithrwydd, ymateb i anghenion cyflogwyr a hunaniaeth ddiwylliannol ar draws sectorau?

19. A oes unrhyw ffactorau y dylid eu hystyried a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:
    (a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a
    (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

20. A oes unrhyw ffactorau eraill i'w hystyried er mwyn sicrhau na fyddai dyluniad y rhaglen newydd yn cael effeithiau andwyol, neu a fyddai'n lleihau effeithiau andwyol ar y canlynol:
    (a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a
    (b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?

## Prentisiaethau cynhwysol

45. Fel y nodir ym Mholisi Prentisiaethau Llywodraeth Cymru, mae 'anghydraddoldeb yn cael effaith negyddol ar dwf economaidd ac ar ganlyniadau cymdeithasol. Y ffordd orau o sicrhau twf yw gwella cyfranogiad pobl mewn gwaith cynaliadwy o ansawdd da, lle maent yn cael cyflog teg, a sicrhau y caiff hyn ei rannu'n deg ar draws ardaloedd daearyddol a demograffeg gwahanol, yn arbennig ymysg grwpiau a dangynrychiolir. Mae'n hanfodol ein bod yn manteisio ar ddawn unigolion o bob cefndir ac yn gweithio'n rhagweithiol i ddileu unrhyw rwystrau sy'n atal pobl rhag cael gafael ar brentisiaethau.'

46. Mae gan Medr ddyletswydd i hyrwyddo Cyfle Cyfartal ar draws agweddau ar addysg drydyddol. Mae Cyfle Cyfartal yn ymwneud â grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yng nghyd-destun cyfranogiad, cadw, cyflawniad a llwyddiant. Mae'r ddeddf yn diffinio dysgwyr sydd heb gynrychiolaeth ddigonol mewn addysg drydyddol fel y rhai sydd dan anfantais o ganlyniad i ffactorau cymdeithasol, diwylliannol, economaidd neu sefydliadol.

47. Un o’n blaenoriaethau allweddol yw creu dyfodol cadarnhaol i’r sector addysg drydyddol ac i Gymru, a byddwn yn gwneud hynny trwy welliant parhaus, gan gynnwys gwneud cyfleoedd i gymryd rhan mewn addysg drydyddol yn fwy cyfartal.

48. Mae yna lawer o arfer da eisoes sy’n cynorthwyo prentisiaethau i fod yn fwy cynhwysol ac yn fwy cynrychioliadol o gymunedau ledled Cymru. Er enghraifft:

i. Mae cymorth ar gael i brentisiaid anabl trwy:

- **Prentisiaethau â chymorth** – darparu cymorth ychwanegol i brentisiaid anabl sydd ag anghenion cyflogaeth a dysgu amrywiol i gael mynediad at brentisiaeth a’i chwblhau. Gall y cymorth a ddarperir fod drwy hyfforddiant swydd neu adnodd arbenigol arall.

- **Cynllun cymhelliant i gyflogwyr** – yn darparu cymorth ariannol o £2,000 i gyflogwyr i helpu i gynnig cyfleoedd i brentisiaid anabl.

ii. Mae cymorth ar gael i brentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol:

- **Cymorth dysgu ychwanegol i brentisiaethau** – mae cymorth pwrpasol ar gael i brentisiaid ag anghenion dysgu ychwanegol, sy’n cynnwys gweithwyr allweddol ADY, cyfathrebwyr, cymorth ategol a chwnsela.

49. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod mwy y mae angen i ni ei wneud i sicrhau bod prentisiaethau’n hygyrch i unigolion o bob cefndir. Rydym yn parhau i chwilio am gyfleoedd i wella nifer y bobl â nodweddion warchodedig sy’n manteisio ar brentisiaethau, a hoffem ddeall y rhwystrau a sut y gallem gryfhau’r gwaith hwn.

Cwestiwn

21. Pa rwystrau sy’n bodoli ar hyn o bryd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran cael mynediad at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, a sut y gall dyluniad y rhaglen newydd fynd i’r afael â’r heriau hyn ac annog cadw dysgwyr?
22. Pa strategaethau recriwtio wedi’u targedu all gefnogi cyfranogiad gan grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?
23. A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa arferion da allech chi eu rhannu?
24. A ddylem ni barhau i ariannu’r rhaglen prentisiaethau â chymorth a’r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr? Eglurwch eich ateb, os gwelwch yn dda.
25. A oes opsiynau eraill yn ogystal / yn lle hynny a fyddai’n helpu i gynorthwyo prentisiaethau gynhwysol yn fwy?
26. Beth allem ni ei wneud i gynorthwyo cyfranogiad mewn prentisiaethau ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol?

**Gwybodaeth bellach**

**50.** Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cylchlythyr hwn at Heather Davidson (prentisiaethau@medr.cymru).

**Atodiad A**

## Cwestiynau ymgynghori

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| **Beth mae'r rhaglen brentisiaethau newydd yn ceisio ei gyflawni?** | | |
| **1** | A ydyw'r egwyddorion lefel uchel hyn yn gywir ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd yng Nghymru? | Ydy / Nac ydy<br><br>Os na, beth yw'r rhesymau pam? |
| **2** | Sut y gallwn ni wneud y rhaglen brentisiaethau yn fwy hyblyg i ddiwallu anghenion dysgwyr a chyflogwyr, gan gynnwys ymateb i newidiadau economaidd, gofynion y farchnad lafur, gwahaniaethau rhanbarthol a thueddiadau gweithlu'r dyfodol yng Nghymru? | |
| **3** | Pa arloesedd neu newidiadau yr hoffech chi eu gweld yn y rhaglen brentisiaethau arfaethedig i sicrhau ei bod yn parhau i fod yn berthnasol, yn gynhwysol, ac yn effeithiol i'r genhedlaeth nesaf o ddysgwyr yng Nghymru? | |
| **4** | Sut olwg fyddai ar lwyddiant ymhen pum mlynedd? | |
| **5** | A ydyw'r diffiniad o brentisiaeth yng Nghymru yn nodi'r hyn y mae angen i'r rhaglen newydd ei gyflawni? | Ydy / Nac ydy<br><br>Os na, beth yw'r rhesymau pam |
| **Fframweithiau'r sector prentisiaethau** | | |
| **6** | A ydyw'r sectorau hyn yn addas i ddiwallu anghenion yr economi ac anghenion dysgwyr? | |
| **7** | A oes unrhyw sectorau galwedigaethol eang y byddech chi'n disgwyl eu gweld nad ydynt wedi'u cynnwys? | |
| **8** | Sut ddylai fframweithiau sector esblygu i adlewyrchu diwydiannau sy'n dod i'r amlwg, anghenion sgiliau, a blaenoriaethau rhanbarthol yng | |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | Nghymru, beth yw'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer hyn? | |
| **Dysgwyr** | | |
| **9** | Pa agweddau ar daith y dysgwr ar hyn o bryd mewn prentisiaethau sy'n gweithio'n dda, a ble ydych chi'n gweld cyfleoedd i wella er mwyn cynorthwyo dysgwyr yn well drwy gydol eu dysgu? | |
| **10** | Pa ganlyniadau y dylid eu blaenoriaethu ar gyfer prentisiaid (e.e. cyflogaeth gynaliadwy, cymwysterau), a sut y gellir mesur a chynorthwyo'r rhain yn effeithiol? | |
| **11** | Sut y gallwn ni ddenu mwy o brentisiaid, a/neu garfan ehangach o brentisiaid i'r rhaglen, waeth beth fo'u cefndir neu eu man cychwyn? | |
| **Cyflogwyr/diwydiant** | | |
| **12** | Sut y gallwn ni ehangu nifer ac ystod y cyflogwyr sy'n cynnig prentisiaethau, yn enwedig busnesau bach a chanolig? | |
| **13** | Sut y gall cyflogwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglen brentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith? | |
| **14** | Sut y gellir cefnogi busnesau'n well wrth weithio gyda phrentis? Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i gyflogwyr, cyn cyflogi prentis ac yn ystod taith ddysgu'r prentis? | |
| **15** | Sut y gallwn ni sicrhau rhaglen sy'n cefnogi datblygiad economaidd rhanbarthol a chynllunio sgiliau sy'n seiliedig ar le? | |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| **Darparwyr dysgu** | | |
| **16** | Sut y gall darparwyr ymwneud yn fwy effeithiol â dylunio, cyflawni a gwerthuso rhaglenni prentisiaethau er mwyn sicrhau perthnasedd ac effaith? | |
| **17** | Beth sy'n gweithio'n dda a beth y mae angen ei gryfhau o safbwynt darparwr? | |
| **Y Gymraeg** | | |
| **18** | A oes gan ein hegwyddorion lefel uchel ar gyfer y rhaglen brentisiaethau newydd unrhyw effaith gadarnhaol neu negyddol ar y canlynol:<br>(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg?<br><br>Yn benodol<br>• Sut y gallwn ni annog mwy o fanteisio ar gyfleoedd trwy gyfrwng y Gymraeg / yn ddwyieithog ledled Cymru?<br>• Sut y gellir ymgorffori'r Gymraeg yn fwy ystyrlon mewn rhaglenni prentisiaethau i gefnogi dwyieithrwydd, ymateb i anghenion cyflogwyr a hunaniaeth ddiwylliannol ar draws sectorau? | |
| **19** | A oes unrhyw ffactorau y dylid eu hystyried a fyddai'n cael effaith gadarnhaol ar y canlynol:<br>(a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | |
| **20** | A oes unrhyw ffactorau eraill i'w hystyried er mwyn sicrhau na fyddai dyluniad y rhaglen newydd yn cael effeithiau andwyol, neu a fyddai'n lleihau effeithiau andwyol ar y canlynol: | |

| Rhif. | Cwestiwn | Ymateb |
|---|---|---|
| | (a) cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, a<br>(b) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg? | |
| **Prentisiaethau cynhwysol** | | |
| **21** | Pa rwystrau sy'n bodoli ar hyn o bryd i grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol o ran cael mynediad at brentisiaethau a llwyddo ynddynt, a sut y gall dyluniad y rhaglen newydd fynd i'r afael â'r heriau hyn? | |
| **22** | A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa arferion da allech chi eu rhannu? | |
| **23** | A oes gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol, neu ganlyniadau anfwriadol, o ran cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant? Pa arferion da allwch chi eu rhannu? | |
| **24** | A ddylem ni barhau i ariannu'r rhaglen prentisiaethau â chymorth a'r Cynllun Cymhelliant i Gyflogwyr? Eglurwch eich ateb, os gwelwch yn dda | |
| **25** | A oes opsiynau eraill yn ogystal / yn lle hynny a fyddai'n helpu i gynorthwyo prentisiaethau gynhwysol yn fwy? | |
| **26** | Beth allem ni ei wneud i gynorthwyo cyfranogiad mewn prentisiaethau ar gyfer y rhai sydd heb gynrychiolaeth ddigonol? | |

**Atodiad B**

## Fframweithiau Sector Arfaethedig Newydd a Llwybrau Galwedigaethol

| | Fframweith Sector Newydd | Llwybr Galwedigaethol |
|---|---|---|
| 1 | **Peirianneg a Gweithgynhyrchu** | Prosesu Metel a Gweithrediadau Cysylltiedig |
| | | Gweithgynhyrchu Prosesau |
| | | Gwella Perfformiad Gweithredol |
| | | Argraffu a Deunydd Pacio Printiedig |
| | | Peirianneg Gyfansawdd (Gweithredwr a Lled-Gymwys) |
| | | Peirianneg Gweithgynhyrchu Uwch |
| | | Cynllun Cydnabyddiaeth Lefel 4 Crefftwr Meistr |
| | | Peirianneg Seilwaith Rheilffyrdd |
| | | Gweithgynhyrchu Peirianneg |
| | | Prentisiaeth Gradd Peirianneg a Gweithgynhyrchu Uwch |
| | | Peirianneg Traction Rheilffyrdd a Stoc Rholio |
| 2 | **Amaeth, Amgylchedd a Gofal Anifeiliaid** | Blodeuwriaeth |
| | | Peirianneg Tir |
| | | Cynorthwywyr Nyrsio mewn Amgylchedd Milfeddygol |
| | | Gofal Anifeiliaid |
| | | Amaethyddiaeth |
| | | Coed a Phren |
| | | Cadwraeth Amgylcheddol |
| | | Garddwriaeth |
| | | Ceffylau |
| | | Nursio Milfeddygol |
| 3 | **Cerbydau, Cludiant a Logisteg** | Ffitiadau Cerbydau |
| | | Rhannau Cerbydau |
| | | Corff a Phaent Cerbydau |
| | | Cerbyd Cludo Teithwyr (Bws a Coetsys) |
| | | Gwaith Warws a Storio |
| | | Gweithrediadau Logisteg |
| | | Rheoli'r Gadwyn Gyflenwi |
| | | Cynnal a Chadw ac Atgyweirio Cerbydau |
| | | Gyrru Cerbydau Nwyddau |
| | | Gyrru Trên |
| 4 | **Gwasanaethau Busnes a Rheolaeth** | Dehongli a Chyfieithu |
| | | Caffael a Chyflenwi Masnachol |
| | | Rheoli |
| | | Gweinyddiaeth Busnes |
| | | Gweithrediadau Canolfannau Cyswllt |
| | | Gwerthu a Thelewerthu |

| | Fframweith Sector Newydd | Llwybr Galwedigaethol |
|---|---|---|
| | | Rheoli Prosiectau |
| | | Rheoli Adnoddau Dynol |
| | | Gwasanaethau Busnes a Masnach |
| | | Manwerthu |
| | | Gwasanaethau cwsmer |
| 5 | **Arlwyo a Lletygarwch** | Arlwyo a Lletygarwch |
| | | Lletygarwch Trwyddedig |
| 6 | **Addysg a'r Blynyddoedd Cynnar** | Gofal Plant |
| | | Gwaith Chwarae |
| | | Cefnogi Dysgu ac Addysgu mewn Addysg Gorfforol a Chwaraeon Ysgol |
| | | Datblygu Cymunedol |
| | | Gwasanaethau Llyfrgelloedd, Archifau, Cofnodion a Rheoli Gwybodaeth |
| | | Gwybodaeth, Cyngor ac Arweiniad |
| | | Cefnogi Addysgu a Dysgu mewn Ysgolion |
| | | Gwaith Ieuenctid |
| | | Dysgu a Datblygu |
| 7 | **Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig** | Gweithrediadau Sifil – Gwaith Ti |
| | | Paentio ac Addurno |
| | | Gwaith Coed ar y Safle |
| | | Plastro Solet |
| | | Toi gyda Llechi a Theils |
| | | Leinin Sych |
| | | Teilsio Waliau a Lloriau |
| | | Saernïaeth Bensaernïol |
| | | Codi Fframwaith Coed |
| | | Gweithrediadau Peiriannau |
| | | Gosod Brics |
| | | Plymio a Gwresogi |
| | | Systemau Gwresogi ac Awyru |
| | | Tirfesur (Cymru) |
| | | Adeiladu - Adeiladau |
| | | Peirianneg Sifil |
| | | Arbenigwr Adeiladu |
| | | Adeiladu - Technegol |
| | | Rheoli Adeiladu |
| | | Electrodechnegol |
| | | Systemau Oeri ac Aerdymheru |
| 8 | **Creadigol, Dylunio a'r Cyfryngau** | Ffasiwn a Thecstilau |
| | | Treftadaeth Ddiwylliannol |
| | | Cyfryngau Creadigol |
| | | Y Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol |
| | | Newyddiaduraeth |
| | | Theatr Dechnegol |

| | Fframweith Sector Newydd | Llwybr Galwedigaethol |
|---|---|---|
| 9 | **Digidol** | Datblygwr Dysgu Digidol |
| | | Gradd Ddigidol |
| | | Telathrebu Digidol |
| | | Cymorth Cymwysiadau Digidol |
| | | Peiriannydd Seilwaith Digidol |
| | | Dylunydd Cynnwys Digidol |
| | | Datblygwr Meddalwedd |
| | | Dadansoddwr Diogelwch Seiber |
| | | Dylunydd Canolbwyntio ar y Defnyddiwr (UCD) |
| | | Defnyddiwr Digido |
| | | Dadansoddi Data |
| | | Cymorth Cymwysiadau Digidol |
| 10 | **Ynni** | Rheoli Ynni |
| | | Y Sector Pŵer |
| | | Gweithrediadau Nwy |
| | | Rheoli Adnoddau Cynaliadwy |
| 11 | **Bwyd a Diod** | Rheolaeth Dechnegol y Diwydiant Bwyd |
| | | Arwain Tîm y Diwydiant Bwyd |
| | | Gweithrediadau Bwyd a Diod |
| | | Cynnal a Chadw Peirianneg Bwyd a Diod |
| | | Rhagoriaeth wrth Weithgynhyrchu Bwyd |
| | | Pobi |
| | | Cigyddiaeth a Phrosesu Cig |
| | | Bragu |
| | | Bwyd môr |
| 12 | **Gwallt a Harddwch** | Trin Gwallt |
| | | Gwaith Barbwr |
| | | Therapi Harddwch |
| | | Gwasanaethau Ewinedd |
| 13 | **Gofal** | Cefnogi Goroeswyr Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol |
| | | Fframwaith Proffesiynol Ymarfer Uwch mewn Gofal Cymdeithasol |
| | | Fframwaith Proffesiynol mewn Arweinyddiaeth a Rheoli mewn Gofal Cymdeithasol |
| | | Iechyd a gofal cymdeithasol |
| 14 | **Iechyd a Gwyddoniaeth** | Codio Clinigol |
| | | Gweithiwr Cyswllt Gwyddor Gofal Iechyd |
| | | Technoleg Ddeintyddol |
| | | Ymarferwyr Ambiwlans Cyswllt |
| | | Cymorth Amdriniaethol |
| | | Nyrsio Deintyddol |
| | | Iechyd (Cymorth Gofal Iechyd Clinigol) |
| | | Iechyd (Gwasanaethau Fferyllol) |
| | | Iechyd (Gwybodeg) |

| | Fframweith Sector Newydd | Llwybr Galwedigaethol |
|---|---|---|
| | | Gwasanaethau Cymorth Gofal Iechyd |
| | | Cymorth Mamolaeth a Phediatrig |
| | | Ymarferwyr Cymorth Therapi |
| | | Technwyr Labordy a Gwyddoniaeth |
| **15** | **Y Gyfraith, Cyllid a Chyfrifyddu** | Cyfrifyddu |
| | | Darparu Gwasanethau Ariannol |
| | | Trosglwyddo eiddo |
| | | Yswiriant |
| **16** | **Gwasanethau Eiddo** | Rheoli Cyfleusterau |
| | | Tai |
| | | Gwasanaethau Glanhau a Chymorth Amgylcheddol |
| **17** | **Gwasanaethau Cyhoeddus a Diogelu** | Tân a Diogelwch |
| | | Gweimidogaeth yr Eglwys |
| | | Cydymffurfiaeth Reoleiddiol |
| | | Gweithrediadau Gwasanaeth Tân Brys |
| | | Swyddog Carcharu neu Ddalfa |
| **18** | **Chwaraeon a Hamdden** | Rhaglenni Awyr Agored |
| | | Hyfforddiant Personnol |
| | | Rheoli Hamdden |
| | | Chwaraeon, Hamdden |
| | | Rhagoriaeth Chwaraeon |
| | | Dalblygu Chwaraeon |

Nodwch bydd llwybrau Gradd yn cael eu tynnu a'u hymgorffori i mewn i lwybrau galwedigaethol yn ystod yr adolygiadau.

Medr

Y Comisiwn Addysg Drydyddol ac Ymchwil
Commission for Tertiary Education and Research

www.medr.cymru


2 Cwr y Ddinas
Stryd Tyndall
Caerdydd
CF10 4BZ

2 Capital Quarter
Tyndall Street
Cardiff
CF10 4BZ



Noddir gan
**Lywodraeth Cymru**
Sponsored by
**Welsh Government**